15fed Ebrill, 2016

Annwyl Riant /Warcheidwad,

Ysgrifennwn atoch i'ch hysbysu am y trefniadau ar gyfer Blwyddyn 12 yn ystod yr wythnosau nesaf. Gan fod yna arholiadau Uwch Gyfrannol ar y gorwel, diwrnod olaf ar gyfer blwyddyn 12 yn yr Ysgol fydd dydd Iau, Mai 12fed, gyda chyfnod astudio yn dechrau ar ddydd Gwener, Mai 13eg 2016. Bydd gwersi Blwyddyn 12 yn ail-ddechrau ar ddydd Llun, 13eg Mehefin (Mathemateg/Mathemateg Pellach i ddychwelyd 15/6). Mae'n hanfodol eu bod yn mynychu'r ysgol oherwydd eu bod yn dechrau'r cyrsiau Safon Uwch bryd hynny ac yn ymgymryd â nifer o weithgareddau'r Fagloriaeth Gymreig. Nid oes hawl gan unrhyw ddisgybl i ollwng pwnc tan y canlyniadau Uwch Gyfrannol ar 18fed Awst.

Os nad ydy eich plentyn yn golygu dychwelyd i Flwyddyn 13, gwerthfawrogwn lythyr yn cadarnhau y penderfyniad hwn os gwelwch yn dda.

Dyma'r dyddiadau allweddol wedi dychwelyd i'r Ysgol ar ôl y cyfnod arholiadau:

13-17 Mehefin: Gwersi arferol

20 - 24 Mehefin: Gweithgareddau'r Fagloriaeth Gymreig

27 Mehefin – 1af o Orffennaf: Wythnos Cyfoethogi'r Cwricwlwm

4 - 8 Gorffennaf: Profiad Gwaith Blwyddyn 12

11 -15 Gorffennaf: Gweithgareddau'r Fagloriaeth Gymreig

18 -19 Gorffennaf: Gwersi arferol

Hoffem gymryd y cyfle yma i ddymuno'n dda i ddisgyblion Blwyddyn 12 yn eu harholiadau Uwch Gyfrannol. Rhaid sicrhau eu bod yn adolygu'n drwyadl yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl a chael parhau gyda'u haddysg ym Mlwyddyn 13.

Yr eiddoch yn gywir,

Jane Wyn

(Pennaeth)

Edwina Rees

(Pennaeth y Chweched)

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

15th April, 2015

Dear Parent/Guardian,

We are writing to inform you of the arrangements regarding Year 12 during the coming weeks. As there are Advanced Subsidiary modular exams scheduled for the coming weeks, the last day of lessons for Year 12 will be Thursday, 12th May with the allocated study period starting on Friday May 13th 2016. Year 12 lessons will re-commence on Monday, 13th June (Mathematics and Further Mathematics to return 15/6). It will be essential for the students to attend school then as they will be starting their Advanced Level courses and participate in a number of Welsh Baccalaureate activities. No pupils will be permitted to leave any subjects until they receive their AS results on August 18th.

If your child is not intending on returning to Year 13, we kindly ask for a letter confirming this decision please.

Key dates after returning from study leave:

13 – 17 June: Normal timetable

20 - 24 June: Welsh Baccalaureate activities

27 June – 1 July: Curriculum Enrichment Week

4 – 8 July: Year 12 Work experience

11 - 15 July: Welsh Baccalaureate activities

18 – 19 July: Normal timetable

We would like to take this opportunity to wish Year 12 students all the best in the coming AS exams. The students must ensure that they revise thoroughly during the coming weeks in order to achieve the best results possible so that they can continue with their education in Year 13.

Yours Faithfully,

Jane Wyn (Headteacher)

Edwina Rees (Head of 6th Form)